OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1011

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 4

## Gorfodi

**Pŵer mynd i mewn**

**17.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre i gymryd camau gorfodi, neu i hwyluso cymryd camau gorfodi, o dan reoliad 16.

(2) Caiff swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

(a) defnyddio grym rhesymol i fynd i'r fangre;

(b) cymryd unrhyw bersonau eraill, cyfarpar a deunyddiau i'r fangre y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

(a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy yw'r swyddog ac amlinellu at ba ddiben yr arferir y pŵer;

(b) os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, gadael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

**[**[F1](4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat onid yw'r swyddog gorfodaeth yn gwnstabl.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 17(4) wedi ei fewnosod (4.12.2020 am 6.00 p.m.) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1409), rhlau. 1(2), **3(4)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 17 mewn grym ar 18.9.2020 am 12.01 a.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/12/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, Adran 17.